

Drindod 9

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gweddiwn.

**Dad y gogoniant,
sanctaidd a thragwyddol,
edrych arnom yn awr mewn gallu a
thrugaredd.**

**Bydded i'th nerth orchfygu ein gwendid,
i'th lewyrch oleuo ein dallineb,
a'th Ysbryd ein denu at y cariad hwnnw
sy'n cael ei ddangos a'i gynnig inni gan dy Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.**

Arglwydd Iesu, dangosaist inni'r ffordd at y
Tad.

Arglwydd, trugarha.
Arglwydd, trugarha.

Arglwydd Iesu, rhoddaist inni wybodaeth o'th
wirionedd.

Crist, trugarha.
Crist, trugarha.

Arglwydd Iesu, ti yw'r bugail da sydd yn ein
tywys i fywyd.

Arglwydd, trugarha.
Arglwydd, trugarha.

Yn ystod eiliad o ddistawrwydd, myfyriwn ar
ein pechodau a phechodau'r holl fyd.

**Dad nefol,
rydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac rydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist
a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni. Amen.**

Yr Hollalluog Dduw, sy'n maddau i bawb sy'n
wir edifeiriol, a drugarhao wrthyich, a'ch
rhyddhau o bechod, eich cadarnhau mewn
daioni a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol; trwy
Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Trinity 9

In the name of the Father, and of the Son, and
of the Holy Spirit. **Amen.**

Let us pray.

**Father of glory,
holy and eternal,
look upon us now in power and mercy.
May your strength overcome our weakness,
your radiance transform our blindness,
and your Spirit draw us to that love
shown and offered to us by your Son,
our Saviour Jesus Christ.
Amen.**

Lord Jesus, you have shown us the way to the
Father.

Lord, have mercy.
Lord, have mercy.

Lord Jesus, you have given us knowledge of
your truth.

Christ, have mercy.
Christ, have mercy.

Lord Jesus, you are the good shepherd
leading us into life.

Lord, have mercy.
Lord, have mercy.

In a moment of silence we call to mind our
own sins and the sins of the world.

**Heavenly Father,
we have sinned in thought word and deed,
and have failed to do what we ought
to have done.
We are sorry and truly repent.
For the sake of your son Jesus Christ
who died for us,
forgive us all that is past
and lead us in his way
to walk as children of light. Amen.**

Almighty God who forgives all who truly
repent, have mercy on you and set you free
from sin, strengthen you in goodness and
keep you in eternal life; through Jesus Christ
our Lord. **Amen.**

Gloria

Clod yn y goruchaf foed i Dduw y nef.
Heddwch rhwng y bobloedd fo yn gadwyn gref:
seiniwn ein gorfoledd yn gytun yn awr,
llawen Aleliwia fo i'r Brenin Mawr.

Atgyfododd Iesu yn Waredwr byd
gyda'r Sanctaidd Ysbryd Tri sy'n un o hyd:
Oen y Pasg a laddwyd dros ein pechod ni,
yn dy fawr drugaredd gwranddo ar ein cri.

Ti O Grist yw'n gobaith rhown i Ti'r mawrhad,
Ti sy'n eiriol trosom ar ddeheulaw'r Tad;
unwn yn y moliant gyda'r nef ei hun,
iti mewn gogoniant Ddwyfol Mab y Dyn.

Colect

Hollalluog Dduw,
a anfonai dy Ysbryd Glân
i fod yn fywyd a goleuni i'th Eglwys,
agor ein calonnau i gyfoeth dy ras,
fel y dygwn ffrwyth yr Ysbryd
mewn cariad a llawenydd a thangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.
Amen.

Darllenaiad o'r Testament Newydd*Rhufeiniaid 10. 5-15*

Ysgrifennodd Moses am y cyfiawnder trwy y Gyfraith: "Y sawl sy'n cadw ei gofynion a gaiff fyw trwyddynt." Ond fel hyn y dywed y cyfiawnder trwy ffydd: "Paid â dweud yn dy galon, 'Pwy a esgyn i'r nef?'" – hynny yw, i ddwyn Crist i lawr – "neu, 'Pwy a ddisgyn i'r dyfnder?'" – hynny yw, i ddwyn Crist i fyny oddi wrth y meirw. Ond beth mae'n ei ddweud? "Y mae'r gair yn agos atat, yn dy enau ac yn dy galon." A dyma'r gair yr ydym ni yn ei bregethu, gair ffydd, sef: "Os cyffesi Iesu yn Arglwydd â'th enau, a chredu yn dy galon fod Duw wedi ei gyfodi ef oddi wrth y meirw, cei dy achub." Oherwydd credu â'r galon sy'n esgor ar gyfiawnder, a chyffesu â'r genau sy'n esgor ar iachawdwriaeth. Y mae'r Ysgrythur yn dweud:

Gloria

**Glory in the highest to the God of heaven!
Peace to all your people through the earth be
given:
Mighty God and Father, thanks and praise we
bring,
singing Alleluias to our heavenly King.**

**Jesus Christ is risen, God the Father's Son:
with the Holy Spirit, You are Lord alone!
Lamb once killed for sinners, all our guilt to
bear,
show us now your mercy, now receive our
prayer.**

**Christ the world's true Saviour, High and Holy
One.
Seated now and reigning from your Father's
throne:
Lord and God, we praise you; highest heaven
adores:
in the Father's glory, all the praise be yours!**

Collect

Almighty God,
who sent your Holy Spirit
to be the life and light of your Church:
open our hearts to the riches of your grace,
that we may bring forth the fruit of the Spirit
in love and joy and peace;
through Jesus Christ your Son our Lord,
who is alive and reigns with you
and the Holy Spirit,
one God, now and for ever.

Amen.

A New Testament Reading*Romans 10. 5-15*

Moses writes concerning the righteousness that comes from the law, that 'the person who does these things will live by them.' But the righteousness that comes from faith says, 'Do not say in your heart, "Who will ascend into heaven?" ' (that is, to bring Christ down) 'or "Who will descend into the abyss?" ' (that is, to bring Christ up from the dead). But what does it say? 'The word is near you, on your lips and in your heart' (that is, the word of faith that we proclaim); because if you confess with your lips that Jesus is Lord and believe in your heart that God raised him from the dead, you will be saved. For one believes with the heart and so is justified, and one confesses

"Pob un sy'n credu ynddo, ni chywilyddir mohono." Nid oes dim gwahaniaeth rhwng lldewon a Groegiaid. Yr un Arglwydd sydd i bawb, sy'n rhoi o'i gyfoeth i bawb sy'n galw arno. Oherwydd, yng ngeiriau'r Ysgrythur, "bydd pob un sy'n galw ar enw yr Arglwydd yn cael ei achub, pwy bynnag yw."

Ond sut y mae pobl i alw ar rywun nad ydynt wedi credu ynddo? Sut y maent i gredu yn rhywun nad ydynt wedi ei glywed? Sut y maent i glywed, heb fod rhywun yn pregethu? Sut y maent i bregethu, heb gael eu hanfon? Fel y mae'r Ysgrythur yn dweud: "Mor weddaidd yw traed y rhai sy'n cyhoeddi newyddion da."

ar ôl y darlleniad, dywedir

Dyma air yr Arglwydd

Diolch a fo i Dduw.

Efengyl

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Mathew 14. 13-21

Yna'n ddi-oed gwnaeth i'r disgyblion fynd i'r cwch a hwylio o'i flaen i'r ochr draw, tra byddai ef yn gollwng y tyrfaoedd. Wedi eu gollwng aeth i fyny'r mynydd o'r neilltu i weddio, a phan aeth hi'n hwyr yr oedd yno ar ei ben ei hun. Yr oedd y cwch eisoes gryn bellter oddi wrth y tir, ac mewn helbul gan y tonnau, oherwydd yr oedd y gwynt yn ei erbyn. Rhwng tri a chwech o'r gloch y bore daeth ef atynt dan gerdded ar y môr. Pan welodd y disgyblion ef yn cerdded ar y môr, dychrynwyd hwy nes dweud, "Drychiolaeth yw", a gweiddi gan ofn. Ond ar unwaith siaradodd Iesu â hwy. "Codwch eich calon," meddai, "myfi yw; peidiwch ag ofni."

Atebodd Pedr ef, "Arglwydd, os tydi yw, gorchymyn i mi ddod atat ar y tonnau." Meddai Iesu, "Tyrd." Disgynnodd Pedr o'r cwch a cherddodd ar y tonnau, a daeth at Iesu. Ond pan welodd rym y gwynt brawychodd, ac wrth ddechrau suddo gwaeddodd, "Arglwydd, achub fi." Estynnodd Iesu ei law ar unwaith a gafael ynddo gan ddweud, "Ti o ychydig ffydd, pam y petrusaist?" Ac wedi iddynt ddringo i'r cwch, gostegodd y gwynt. Yna addolodd y rhai oedd yn y cwch ef, gan ddweud, "Yn wir, Mab Duw wyt ti."

with the mouth and so is saved. The scripture says, 'No one who believes in him will be put to shame.' For there is no distinction between Jew and Greek; the same Lord is Lord of all and is generous to all who call on him. For, 'Everyone who calls on the name of the Lord shall be saved.'

But how are they to call on one in whom they have not believed? And how are they to believe in one of whom they have never heard? And how are they to hear without someone to proclaim him? And how are they to proclaim him unless they are sent? As it is written, 'How beautiful are the feet of those who bring good news!'

at the end of the reading is said

This is the Word of the Lord

Thanks be to God

Gospel

Listen to the Gospel of Christ according to Saint Matthew

Glory to you, O Lord.

Matthew 14. 13-21

Immediately he made the disciples get into the boat and go on ahead to the other side, while he dismissed the crowds. And after he had dismissed the crowds, he went up the mountain by himself to pray. When evening came, he was there alone, but by this time the boat, battered by the waves, was far from the land, for the wind was against them. And early in the morning he came walking towards them on the lake. But when the disciples saw him walking on the lake, they were terrified, saying, 'It is a ghost!' And they cried out in fear. But immediately Jesus spoke to them and said, 'Take heart, it is I; do not be afraid.'

Peter answered him, 'Lord, if it is you, command me to come to you on the water.' He said, 'Come.' So Peter got out of the boat, started walking on the water, and came towards Jesus. But when he noticed the strong wind, he became frightened, and beginning to sink, he cried out, 'Lord, save me!' Jesus immediately reached out his hand and caught him, saying to him, 'You of little faith, why did you doubt?' When they got into the boat, the wind ceased. And those in the boat worshipped him, saying, 'Truly you are the Son of God.'

ar ôl yr Efengyl, dywedir
 Dyma Efengyl yr Arglwydd.
Moliant i ti, O Grist.

PREGETH

Cadarnhawn ein ffydd trwy adrodd y Credo:

**Credaf yn Nuw, y Tad hollalluog,
 creadwr nefoedd a daear.**

**Credaf yn Iesu Grist, ei unig Fab, ein Harglwydd
 ni.**

**Fe'i cenhedlwyd trwy rym yr Ysbryd Glân
 a'i eni o'r Wryf Mair.
 Dioddefodd dan Pontius Pilat,
 fe'i croeshoeliwyd, bu farw, ac fe'i claddwyd.
 Disgynnodd i blith y meirw.
 Ar y trydydd dydd fe atgyfododd.
 Fe esgynnodd i'r nefoedd,
 ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
 Fe ddaw drachefn i farnu'r byw a'r meirw.**

**Credaf yn yr Ysbryd Glân,
 yr Eglwys sanctaidd gatholig,
 cymundeb y saint,
 maddeuant pechodau,
 atgyfodiad y corff
 a'r bywyd tragwyddol. Amen.**

Gweddïau'r Eglwys

Gweddïwn dros yr Eglwys a'r byd, a diolchwn i
 Dduw am ei ddaioni

*ar ôl bob ymbiliad, dywedir neu genir un o'r
 canlynol :*

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

neu

Bendithiwn yr Arglwydd
Diolch a fo i Dduw.

ar y diwedd : Dad Trugarog,
**derbyn y gweddïau hyn
 er mwyn dy Fab,
 ein Gwardwr Iesu Grist. Amen.**

at the end of the Gospel is said
 This is the Gospel of the Lord.
Praise to you, O Christ.

SERMON

*We affirm our faith in the words of the
 Apostles' Creed:*

**I believe in God, the Father almighty,
 creator of heaven and earth.**

**I believe in Jesus Christ, his only Son, our Lord.
 He was conceived by the power of the Holy
 Spirit**

**and born of the Virgin Mary.
 He suffered under Pontius Pilate,
 was crucified, died, and was buried.**

**He descended to the dead.
 On the third day he rose again.**

**He ascended into heaven
 and is seated at the right hand of the Father.
 he will come again to judge the living and the
 dead.**

**I believe in the Holy Spirit,
 the holy catholic Church,
 the communion of saints,
 the forgiveness of sins,
 the resurrection of the body
 and the life everlasting. Amen.**

The Prayers Of The Church

Let us pray for the Church and for the world,
 and give thanks to God for his goodness.

*after each bidding, one of the following is
 said or sung :*

Lord, in your mercy,
hear our prayer.

or

Let us bless the Lord.
Thanks be to God.

at the end : Merciful Father,
**accept these prayers
 for the sake of your Son,
 our Saviour Jesus Christ. Amen.**

Gweddi Cofid 19

Duw Hollalluog a Holl-gariadus, gweddiwn arnat trwy Grist yr Iachawr dros bawb sy'n dioddef o Goronafeirws Cofid-19 yng Nghymru a ledled y byd.

Gweddiwn hefyd dros y rhai sy'n galaru wrth gollu anwyliaid. Rho nerth i feddygon, gwyddonwyr, gofalwyr iechyd a phawb sy'n darparu i'n cymunedau Rho ddoethineb i lunwyr polisïau. Rho gysur i bawb mewn trallod, yr unig a'r gwan. Tyrd â thawelwch meddwl i ni i gyd yn y dyddiau ansicr a gofidus hyn.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd a ddangosodd dosturi i'r rhai mewn angen, a gofleidiodd y rhai a wrthodwyd, ac a garodd y rhai nad oedd neb arall yn eu caru. Amen.

Y Tangnefedd

Bydded eich cariad yn ddiragrith. Peidiwch â thalu drwg am ddrwg i neb. Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phob un.

Tangnefedd yr Arglwydd fyddo gyda chwi bob amser.

A hefyd gyda thi.

*Halelwia, Halelwia!
Rhoddwn ddiolch i'n Harglwydd Dduw;
Haleliwia, Halelwia!
Canwn fawl i'w enw ef.*

Iesu sy'n Arglwydd daear lawr,
ef ydyw Brenin y cread.

Ewch â'r newyddion da i'r byd,
Iesu fu farw - cyfododd.

Ninnau groeshoeliwyd gydag ef,
Ganddo cawn fywyd tragwyddol.

Duw sy'n cyhoeddi rhodd ei ras,
bywyd yn rhad, Halelwia!

Dewch, canwch fawl i'r bywiol Dduw,
canwn yn llon i'n Gwardedwr.

A Covid 19 Prayer

Almighty and All-loving God, we pray to you through Christ the Healer for all who suffer from Coronavirus Covid-19 here in Wales and across the world.

We pray too for those who mourn the loss of loved ones. Give strength to doctors, scientists, healthcarers and those who provide for our communities. Give wisdom to policymakers. Give comfort to those in distress, the lonely & weak. Bring a sense of calm to us all in these days of uncertainty.

This we ask in the name of Jesus Christ our Lord, who showed compassion to the outcast, acceptance to the rejected and who loved those whom no-one else would love. Amen.

The Peace

Love in all sincerity. Never pay back evil for evil. If possible, so far as it lies with you, live at peace with all.

The peace of the Lord be always with you.
And also with you.

*Alleluia, alleluia,
Give thanks to the risen Lord
Alleluia, alleluia,
Give praise to his name.*

Jesus is Lord of all the earth,
He is the King of creation.

Spread the good news o'er all the earth,
Jesus has died and has risen.

We have been crucified with Christ.
Now we shall live for ever.

God has proclaimed the just reward;
'Life for us all, alleluia!'

Come let us praise the living God
joyfully sing to our Saviour.

Y Paratoi

Duw anfeidrol ddaioni,
 ers sefydlu dy Eglwys
 yr wyt wedi ei galluogi i adnewyddu ei ffydd
 trwy gymundeb â chorff a gwaed Crist.
 Bydded i sagrafen dy gariad
 ein cynnal yr wythnos hon
 wrth i ni deithio tuag at y dydd
 pan ddown i'th deyrnas nefol di. Amen.

Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl
 greadigaeth.
 Trwy dy ddaioni y mae gennym y bara hwn i'w
 offrymu,
 rhodd y ddaear a gwaith dwylo dynol.
 Fe ddaw i ni yn fara'r bywyd.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl
 greadigaeth.
 Trwy dy ddaioni y mae gennym y gwin hwn i'w
 offrymu,
 ffrwyth y winwydden a gwaith dwylo dynol.
 Fe ddaw i ni yn ddiod ysbrydol.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

GWEDDI'R CYMUN

Yr Arglwydd fyddo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Dyrchefwch eich calonnau.
Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Mae bob amser yn iawn,
 lle bynnag y byddwn ni,
 i roi diolch a moliant i ti,
 Dduw ein Tad a'n Brenin am byth,
 trwy Iesu Grist, dy Fab.

Trwyddo ef fe'n gwnaethost ni a'r bydysawd
 cyfan. Pan ddaeth dy Ysbryd Glân at Mair, fe
 anwyd Iesu yn un ohonom ni. Fe'n carodd ni
 gymaint fel iddo farw trosom ni; ar Ddydd y
 Pasg codaist ef o farw'n fyw; gan goncro
 marwolaeth a'r drwg am byth. Adeg y
 Pentecost, rhoddaist yr Ysbryd Glân, fel yr
 addawodd Iesu, i'n helpu ni i fyw fel dy blant di.

The Preparation

God of infinite goodness,
 from the very beginning of your Church
 you have enabled her to renew her faith
 through communion with the Body and Blood
 of Christ.
 May the sacrament of your love
 sustain us this coming week
 as we journey towards the day
 when we come to your kingdom in heaven.
 Amen.

Blessed are you, Lord, God of all creation.
 Through your goodness we have this bread to
 offer,
 which earth has given and human hands
 have made.
 It will become for us the bread of life.
Blessed be God for ever.

Blessed are you, Lord, God of all creation.
 Through your goodness we have this wine to
 offer,
 fruit of the vine and work of human hands.
 It will become our spiritual drink.
Blessed be God for ever.

THE EUCHARISTIC PRAYER

The Lord be with you
And also with you.

Lift up your hearts.
We lift them up to the Lord.

Let us give thanks to the Lord our God.
It is right to give our thanks and praise.

It is always right,
 wherever we are,
 to thank you and to praise you,
 God our Father and King for ever,
 through Jesus Christ, your Son.

Through him you made us and the whole
 universe. When your Holy Spirit came to Mary
 and she said, 'yes' to you, Jesus was born as
 one of us. He loved us so much that he died
 for us; on the first Easter you raised him to life;
 and death and evil were conquered for ever.
 At Pentecost, you gave the Holy Spirit, as
 Jesus promised, to help us to live as your
 children.

Felly yma ar y ddaear,
 a chyda'r angylion a'r archangylion
 â phawb yn y nefoedd
 molianwn dy enw a dweud:
**Sanctaid, sanctaid, sanctaid Arglwydd,
 Duw gallu a nerth,
 nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
 Hosanna yn y goruchaf.
 Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r
 Arglwydd.
 Hosanna yn y goruchaf.**

O Dad yn y nefoedd,
 gwrando'r weddi a gyflwynwn yn enw Iesu;
 trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn dirion fel
 colomen,
 gad i'r bara hwn a'r gwin fod i ni yn gorff a
 gwaed Iesu.

O Dad, cofiwn
 pan gafodd Iesu swper gyda'i ffrindiau
 y noson cyn ei farw,
 fe gymerodd y bara;
 diolchodd i ti, ei dorri, a'i roi i'w ffrindiau a
 dweud:
 Cymerwch hwn a'i fwyta – dyma fy nghorff, a
 roddir drosoch chi.
 Gwnewch hyn i gofio amdanaf.

Ar ôl swper, fe gymerodd Iesu y cwpan gwin;
 diolchodd i ti, ei roi i'w ffrindiau a dweud:
 Yfwch o'r cwpan hwn bob un ohonoch – am
 mai hwn yw fy ngwaed –
 addewid newydd o gariad Duw.
 Gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef
 i gofio amdanaf.

Gyda'n gilydd cofiwn fod Iesu bob amser gyda
 ni a dweud:

**Bu farw Crist.
 Atgyfododd Crist.
 Daw Crist mewn gogoniant.**

O Dad, wrth inni gofio dy Fab, Iesu Grist,
 a fu farw ar y groes ac a atgyfododd,
 offrymwn i ti y rhain a'r holl roddion yr wyt ti'n
 eu rhoi mor hael inni.
 Anfon dy Ysbryd Glân i fod gyda ni
 a phawb sy'n rhannu'r bara hwn ac yn yfed o'r
 cwpan hwn.
 Helpa ni i ymddiried ynot ti,
 tyrdd â ni'n nes at ein gilydd a'n croesawu
 gyda dy holl bobl
 i deyrnas ogoneddus Iesu.

So here on earth,
 with the angels and archangels
 and with everyone in heaven
 we praise your name and say:
**Holy, holy, holy Lord,
 God of power and might,
 heaven and earth are full of your glory.
 Glory be to you, O Lord most high.
 Blessed is he who comes in the name of the
 Lord.
 Hosanna in the highest.**

Father in heaven,
 listen to the prayer we make in Jesus' name;
 through the Holy Spirit's power, gentle as a
 dove,
 may this bread and this wine be for us Jesus'
 body and blood.

Father, we remember
 when Jesus had supper with his friends
 the night before he died,
 he took the bread;
 he thanked you, broke it, gave it to his friends
 and said:
 Take this and eat it – this is my body, given for
 you.
 Do this to remember me.

After supper, Jesus took the cup of wine;
 he thanked you, gave it to his friends and
 said:
 All of you drink from this cup – because this is
 my blood –
 a new promise that I love you:
 Do this every time you drink it
 to remember me.

Together we remember that Jesus is always
 with us and say :

**Christ has died.
 Christ is risen.
 Christ will come in glory.**

Father, as we remember your Son, Jesus
 Christ,
 who died on the cross and rose again,
 we offer you these and all the gifts you freely
 give to us.
 Send your Holy Spirit to be with us
 and all who share this bread and drink from
 this cup.
 Help us to trust you,
 bring us closer together and welcome us,
 with all your people,
 into Jesus' glorious kingdom.

Ti, o Dad, piau pob anrhydedd a gogoniant,
trwy Iesu, dy Fab,
gyda'r Ysbryd Glân:
yn un Duw, yn awr ac am byth.

Pawb **AMEN.**

GWEDDI'R ARGLWYDD

Fel y dysgodd ein Hiachwdwr, gweddiwn yn hyderus,

Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r
gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Y CYMUN

Torrwn y bara hwn, er mwyn cyfranogi o Gorff Crist.

A ninnau'n llawer, un Corff ydym, gan ein bod
oll yn cyfranogi o'r un bara.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dangnefedd.

Y Gwahoddiad

Dewch a derbyniwn nerth gorff a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist, a roddwyd drosom. Derbyniwn yn ein calonnau trwy ffydd gan roi diolch.

Gweinyddir y Sacrament.

Ar ôl cymun, cedwir cyfnod o ddistawrwydd.

All honour and glory belong to you, Father,
through Jesus, your Son,
with the Holy Spirit:
one God, now and for ever.

All **AMEN.**

THE LORD'S PRAYER

As our Saviour taught us, let us pray with confidence,

Our Father,
who art in heaven,
hallowed be thy name;
thy kingdom come; thy will be done;
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom, the power, and the
glory,
for ever and ever. Amen.

THE COMMUNION

We break this bread to share in the body of Christ.

Though we are many we are one body for we
all share in one bread.

Lamb of God, you take away the sins of the
world: have mercy upon us.

Lamb of God, you take away the sins of the
world: have mercy upon us.

Lamb of God, you take away the sins of the
world: grant us peace.

The Invitation

Draw near and receive the strength of Body and Blood of our Lord Jesus Christ which was given for us. We receive it by faith and with thanksgiving.

The Sacrament is administered.

A period of silence is kept after communion

Gweddiwn

Dad sanctaidd,
 a'n galwodd ni yma ynghyd
 o amgylch bwrdd dy Fab
 i gyfranogi o'r pryd hwn
 gyda holl deulu Duw:
 yn y byd newydd hwnnw
 lle y datguddi lawnder dy dangnefedd,
 cynnull bobl o bob hil ac iaith
 i gyfranogi o wledd dragwyddol
 Iesu Grist ein Harglwydd.

Amen.

Diolchwch i'r Arglwydd oherwydd graslon yw.
Ei gariad sy'n dragywydd.

**Dduw ffyddlon,
 rhoddaist manna o'r nefoedd
 i'th bobl yn yr anialwch.
 Cryfha ein ffydd
 fel y tyfwn mewn cariad atat ti,
 ac at ein gilydd,
 trwy Iesu Grist, ein Harglwydd atgyfodedig.
 Amen.**

Yr Arglwydd fyddo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Y Fendith

Ewch mewn tangnefedd i garu a
 gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

Let us pray

Holy Father,
 who gathered us here around the table of
 your Son
 to share this meal with the whole household
 of God:
 in that new world where you reveal the
 fullness of your peace,
 gather people of every race and language
 to share in the eternal banquet
 of Jesus Christ our Lord.

Amen.

Give thanks to the Lord for he is gracious:
His love is everlasting.

**Faithful God,
 you gave manna from heaven
 to your people in the desert.
 Strengthen our faith
 that we may grow in love for you
 and for each other,
 through Jesus Christ, our risen Lord. Amen.**

The Lord be with you.
And also with you.

The Blessing

Go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.